Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rhan 3:

# Safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i weithio

Cyhoeddiad gwreiddiol **20 Mai 2019**
Cyhoeddiad newydd **25 Ebrill 2023**



# Cynnwys

Ynglŷn â'n safonau 3

Rhagymadrodd 4

Dychwelyd i, ac aros ar gofrestr yr NMC 7

1 Dethol, derbyn a dilyniant 8

2 Cwricwlwm 10

3 Ymarfer dysgu 12

4 Goruchwylio ac asesu 13

5 Cymhwyster neu gredydau i'w dyfarnu a gwybodaeth am gofrestriad yr NMC 14

Geirfa 15

Cymeradwywyd y safonau wedi'u diweddaru hyn gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2023.

# Ynglŷn â'n safonau

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys y Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio[1] a bydwreigiaeth, Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr, a safonau rhaglenni sy'n benodol i bob rhaglen gymeradwy.

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant wedi'u nodi mewn tair rhan:

Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth

Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr

Rhan 3: Safonau rhaglenni:

- Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi
- Safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru: rhaglenni'n arwain at gymwysterau nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a rhaglenni'n arwain at gymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol
- Safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer

Mae gwybodaeth ategol ar gyfer ein Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr ar ein gwefan.

Mae'r safonau hyn yn helpu myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth i gyflawni hyfedredd a chanlyniadau rhaglen yr NMC. Rhaid i bob gweithiwr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol ymarfer yn unol â gofynion y Cod, y safonau proffesiynol o ymarfer ac ymddygiad y disgwylir i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cynnal.

1 Rydym wedi defnyddio'r term 'nyrsio' yn y ddogfen hon i gyfeirio at waith nyrsys a chymdeithion nyrsio. Mae cymdeithion nyrsio'n broffesiwn ar wahân yn Lloegr gyda'u rhan eu hunain ar ein cofrestr, ond maent yn rhan o'r tîm nyrsio.

# Rhagymadrodd

## Mae'n Safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer yn pennu'r gofynion cyfreithiol, y gofynion mynediad , cynnwys y rhaglen, gofynion ar gyfer goruchwylio ac asesu a gwybodaeth ar y credydau/dyfarniad ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer (RtP).

Rhaid i nyrys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n dymuno cael eu **haildderbyn** i'r gofrestr, sydd wedi cyflawni llai na 750 awr o waith dros y bum mlynedd ddiwethaf, neu 450 awr yn ystod y tair blynedd cyn eu cais i gael eu haildderbyn i'r gofrestr, gwblhau rhaglen dychwelyd i weithio sydd wedi'i chymeradwyo gan yr NMC yn llwyddiannus neu basio prawf cymhwysedd NMC[2] er mwyn bod yn gymwys i wneud cais i gael eu haildderbyn i'r gofrestr.

Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n agosáu at eu proses **ail-ddilysu** ac sydd wedi ymarfer am lai na 450 awr yn ystod y cyfnod o dair blynedd ers yr adnewyddwyd eu cofrestriad ddiwethaf (900 awr os oes ganddynt gofrestriad deuol) neu ers ymuno â'r gofrestr, gwblhau rhaglen dychwelyd i weithio sydd wedi'i chymeradwyo gan yr NMC yn llwyddiannus neu basio prawf cymhwysedd yr NMC cyn y dyddiad cais am adnewyddu eu cofrestriad.

Rhaid i unigolion gwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer wedi'i chymeradwyo neu basio prawf cymhwysedd yr NMC er mwyn dangos eu bod yn bodloni'r hyfedreddau perthnasol er mwyn parhau i fod ar gofrestr yr NMC neu gael eu haildderbyn arni.

Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i'n safonau. Yn y cyd-destun hwn, mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio profiadol sy'n dychwelyd i ymarfer yn fyfyrwyr, a byddant mewn cyswllt â phobl trwy gydol eu haddysg. Mae'n bwysig eu bod yn adfer hyder ac yn diweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Dylid darllen y safonau'r rhaglen hyn gyda **Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth** a **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr** yr NMC sy'n gymwys i'r holl raglenni a gymeradwywyd gan yr NMC. Rhaid i **Sefydliadau Addysg Cymeradwy (SACau)** yr NMC sy'n dymuno cyflwyno rhaglenni addysg cyn cofrestru cydymffurfio â'r holl safonau hyn i redeg rhaglen gymeradwy.

---

**2** Prawf cymhwysedd sy'n cynnwys dwy ran: rhan un yw prawf cyfrifiadurol o wybodaeth, rhan dau: arholiad clinigol strwythuredig gwrthrychol.

Mae darparwyr addysg yn strwythuro eu rhaglenni addysg i gydymffurfio â'n safonau rhaglenni. Maent hefyd yn llunio eu cwricwla yn seiliedig ar y safonau hyfedredd a gyhoeddwyd ar gyfer rhaglen benodol ac asesir myfyrwyr yn erbyn y safonau hyfedredd hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gofal diogel, caredig ac effeithiol sy'n gwella iechyd a lles.

Hyfedreddau yw'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i ymarfer. Rydym yn cyhoeddi safonau hyfedredd ar gyfer y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth, gan gynnwys Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd yn ogystal â hyfedreddau ar gyfer cymwysterau ôl-gofrestru a gymeradwyir gan yr NMC.

Rydym yn credu bydd cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd yng nghynllunio a chyflenwi cwricwla yn hybu hyder y cyhoedd yn addysg gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth. Rydym yn annog y defnydd o dystiolaeth atodol ac ymgysylltu gan bobl sydd wedi profi gofal.

Bydd cwricwla ar gyfer rhaglenni RtP yn hyblyg i gynnwys cohortau cymysg o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n dychwelyd gydag ystod o anghenion dysgu a phrofiad blaenorol fel pobl broffesiynol wedi'u cofrestru.

Asesir myfyrwyr dychwelyd i ymarfer yn erbyn hyfedreddau perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gofal diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles.

Rydym yn cyhoeddi. Safonau medrusrwydd ar gyfer nyrsys cofrestredig, Safonau medrusrwydd ar gyfer bydwragedd, safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru a gymeradwyir gan yr NMC, a Safonau medrusrwydd ar gyfer cymdeithion nyrsio Safonau hyfedredd yw'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i ymarfer. Rydym yn cyhoeddi safonau hyfedredd mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu hangen i ymarfer. Rydym yn cyhoeddi safonau hyfrededd ar gyfer y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth yn ogystal â rhaglenni ôl-gofrestru a gymeradwyir gan yr NMC.

Trwy ein prosesau sicrwydd ansawdd rydym yn gwirio bod rhaglenni addysg yn bodloni ein holl safonau mewn perthynas â strwythur a chyflenwi rhaglenni addysg a bod canlyniadau'r rhaglen yn ymwneud â'r hyfedreddau a ddisgwylir ar gyfer cymwysterau penodol. Rydym hefyd yn gwirio bod SACau a phartneriaid dysgu ymarfer yn rheoli risgiau yn effeithiol. Trwy ddefnyddio gwybodaeth fewnol ac allanol rydym yn monitro risgiau posibl a real i ansawdd mewn addysg a hyfforddiant, mae'r broses hon o gasglu gwybodaeth yn cynnwys dadansoddiad o adroddiadau rheoleiddwyr systemau.

Cyn y gellir rhedeg rhaglen, rydym yn gwneud yn siŵr bod y rhaglen arfaethedig yn cyrraedd ein safonau. Rydym yn gwneud hyn drwy broses gymeradwyo, yn unol â'n fframwaith sicrwydd ansawdd.

Mae cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer rheoli o ddydd i ddydd ansawdd unrhyw raglen addysgiadol yn gorwedd â'r SAC mewn partneriaeth â'r partneriaid dysgu ymarfer.

## Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 19(3) Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn caniatáu i'n Cyngor bennu safonau ar gyfer y rhai nad ydynt wedi ymarfer am neu yn ystod cyfnod rhagnodedig, er mwyn iddynt ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant o'r fath neu gael profiad o'r fath a'r hyn a nodir mewn safonau.

Mae Erthygl 19(4) y Gorchymyn yn nodi ar gyfer safonau a bennir dan Erthygl 19(3) gall ein cymeradwyaeth a'n camau gorfodi ar gyfer addysg a hyfforddiant (Rhan IV y Gorchymyn) fod yn weithredol.

# Dychwelyd i, ac aros ar gofrestr yr NMC

## Mae safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer yn dilyn taith y myfyriwr ac maent yn cael eu grwpio o dan y pum pennawd canlynol:

### 1. Dethol, derbyn a dilyniant

Safonau am addasrwydd ymgeisydd a'i gyfranogiad parhaus mewn rhaglen dychwelyd i ymarfer

### 2. Cwricwlwm

Safonau ar gyfer cynnwys, cyflwyno a gwerthuso rhaglen dychwelyd i ymarfer

### 3. Dysgu ymarfer

Safonau yn benodol ar gyfer dysgu i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n cymryd lle mewn lleoliadau ymarfer fel rhan o raglen

### 4. Goruchwylio ac asesu

Safonau ar gyfer prosesau goruchwylio ac asesu diogel ac effeithiol ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer

### 5. Cymhwyster neu gredydau i'w dyfarnu a gwybodaeth am gofrestriad yr NMC

Safonau sy'n amlinellu'r dyfarniad ar gyfer pob proffesiwn a sut i ymgeisio i ail-ymuno â chofrestr yr NMC ar gyfer y rheiny sy'n ceisio cael eu haildderbyn

# 1 Dethol, derbyn a dilyniant

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**1.1** gadarnhau ar fynediad ar y rhaglen bod myfyrwyr yn gofrestredig â, neu wedi eu cofrestru â'r NMC

**1.2** cadarnhau wrth gychwyn ar fynediad ar y rhaglen bod myfyrwyr yn:

- **1.2.1** dangos gwerthoedd yn unol **â'r Cod**
- **1.2.2** gallu ymddwyn yn unol **â'r Cod**
- **1.2.3** gallu diweddaru sgiliau rhifedd sy'n ofynnol er mwyn bodloni canlyniadau'r rhaglen
- **1.2.4** gallu dangos hyfrededd mewn Saesneg
- **1.2.5** meddu ar sgiliau llythrennedd i gyflawni canlyniadau'r rhaglen
- **1.2.6** yn meddu ar sgiliau llythrennedd ddigidol a thechnolegol er mwyn cyflawni canlyniadau'r rhaglen

**1.3** sicrhau bod **iechyd a chymeriad** y myfyrwyr yn ddigonol i'w galluogi i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol pan ddechreuant y rhaglen, trwy gydol y rhaglen a phan gyflwynant y datganiad o iechyd a chymeriad yn unol â Chanllawiau'r NMC ar iechyd a chymeriad3[3]. Mae hyn yn cynnwys asesiadau iechyd galwedigaethol ac archwiliadau cofnodion troseddol boddhaol

**1.4** sicrhau bod y myfyrwyr yn hollol ymwybodol o'r gofyn i ddatgan ar unwaith unrhyw gyhuddiadau gan yr heddlu, rybuddion, euogfarnau neu ryddhad amodol neu ddyfarniadau sy'n niweidiol i'w haddasrwydd i ymarfer a wnaed gan gyrff rheoleiddio, cyrff proffesiynol a sefydliadau addysg eraill, a bod unrhyw ddatganiadau'n cael sylw yn brydlon, yn deg ac yn gyfreithlon

---

3 Chanllawiau iechyd a chymeriad

**1.5** sicrhau bod y person sy'n gyfrifol am gyfarwyddo'r rhaglen addysgol neu ei ddirprwy dynodedig yn gallu darparu datganiadau ategol o iechyd a chymeriad ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer

**1.6** ystyried dysgu a phrofiad blaenorol myfyrwyr mewn perthynas â'r safonau hyfedredd, canlyniadau'r rhaglen, a chwmpas gwaith arfaethedig y myfyriwr ar ôl iddo gael ei aildderbyn, a

**1.7** chefnogi myfyrwyr trwy gydol y rhaglen wrth iddynt diweddaru eu gallu ym maes rhifedd, llythrennedd, llythrennedd digidol a thechnolegol er mwyn bodloni canlyniadau'r rhaglen.

# 2 Cwricwlwm

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**2.1** gadarnhau bod rhaglenni yn cydymffurfio â Fframwaith safonau'r NMC ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth

**2.2** cydymffurfio â Safonau'r NMC ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr

**2.3** sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglenni yn adlewyrchu'r safonau hyfedredd perthnasol

**2.4** cynllunio a chyflwyno rhaglen sy'n cefnogi myfyrwyr i ddychwelyd i'w maes ymarfer arfaethedig

**2.5** sicrhau bod rhaglenni a gyflwynir yng Nghymru yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg

**2.6** nodi llwybrau o fewn y rhaglen dychwelyd i ymarfer sy'n caniatáu:

> **2.6.1** nyrsys gael eu haildderbyn i, neu i aros ar y gofrestr ar un neu fwy o'r meysydd penodol o ymarfer nyrsio: nyrsio oedolion, plant, anableddau dysgu ac iechyd meddwl
>
> **2.6.2** bydwragedd gael eu haildderbyn i, neu i aros ar y gofrestr fel bydwragedd
>
> **2.6.3** nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHNs) gael eu haildderbyn i, neu i aros ar y gofrestr fel nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol
>
> **2.6.4** cymdeithion nyrsio gael eu haildderbyn i, neu i aros ar y gofrestr fel cymdeithion nyrsio

**2.7** nodi'r cynnwys sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau rhaglenni ar gyfer pob maes ymarfer nyrsio: nyrsio oedolion, plant, anableddau dysgu ac iechyd meddwl

**2.8** nodi'r cynnwys cyffredinol a phroffesiynol sy'n angenrheidiol i gadarnhau'r Safonau hyfedredd a chanlyniadau'r rhaglen ar gyfer pob rhan o'r gofrestr

**2.9** sicrhau bod cynnwys sy'n benodol fel: diogelu, cydsyniad, ffarmacoleg a gweinyddu meddyginiaethau ac optimeiddio wedi'i gynnwys er mwyn i'r myfyriwr ei aildderbyn i, neu i aros ar, y gofrestr

**2.10** sicrhau bod y cwricwlwm yn defnyddio ystod o strategaethau dysgu ac addysgu a all gynnwys dysgu hyblyg neu o bell, sydd rhaid eu defnyddio'n effeithiol ac yn gymesur i gefnogi dysgu ac asesu

**2.11** sicrhau bod cyfleoedd technoleg ac efelychu yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gymesur ar draws y cwricwlwm i gefnogi goruchwylio, dysgu ac asesu, a

**2.12** sicrhau bod pob rhaglen dychwelyd i ymarfer o hyd priodol i gefnogi canlyniadau'r rhaglen.

# 3 Dysgu ymarfer

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**3.1** ddarparu cyfleoedd dysgu ymarfer sy'n cadarnhau gall myfyrwyr gyflenwi gofal diogel ac effeithiol yn eu maes ymarfer arfaethedig i ystod amrywiol o bobl

**3.2** ddarparu cyfleoedd dysgu ymarfer sy'n cadarnhau gall myfyrwyr fodloni'r sgiliau a threfniadau cyfathrebu a rheoli perthnasau yn eu maes ymarfer arfaethedig, fel y nodir yn y safonau hyfedredd perthnasol

**3.3** sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o ystod o osodiadau ar gyfer eu maes ymarfer arfaethedig, yn dangos gallu i ddiwallu anghenion holistaidd pobl

**3.4** cymryd i ystyriaeth anghenion unigol ac amgylchiadau personol y myfyrwyr, amgylchiadau personol a maes ymarfer arfaethedig wrth drefnu eu cyfleoedd dysgu ymarfer, gan gynnwys gwneud **addasiadau rhesymol** ar gyfer myfyrwyr ag anableddau, a

**3.5** sicrhau bod myfyrwyr â **statws ychwanegol**.

# 4 Goruchwylio ac asesu

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**4.1** ddarparu cefnogaeth, goruchwyliaeth, cyfleoedd dysgu ac asesiadau sy'n cydymffurfio a Fframwaith **safonau'r NMC ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth**

**4.2** darparu cefnogaeth, goruchwyliaeth, cyfleoedd dysgu ac asesiadau sy'n cydymffurfio a **Safonau'r NMC ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr**

**4.3** sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r NMC beth yw enw'r person sy'n gyfrifol am gyfarwyddo'r rhaglen addysg

**4.4** rhoi adborth adeiladol i fyfyrwyr drwy gydol y rhaglen er mwyn eu helpu datblygu

**4.5** sicrhau drwy gydol y rhaglen fod myfyrwyr yn cyrraedd y safonau hyfedredd a chanlyniadau'r rhaglen i'w haildderbyn i, neu i aros ar, y gofrestr

**4.6** sicrhau bod myfyrwyr yn bodloni'r sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau a'r gweithdrefnau

**4.7** asesu myfyrwyr i gadarnhau eu hyfedredd wrth iddynt baratoi i gael eu haildderbyn i, neu aros ar, y gofrestr

**4.8** sicrhau bod y safonau hyfedredd perthnasol yn cael eu cofnodi mewn cofnod o gyflawni sy'n cadarnhau bod y safonau hyfedreddau a'r sgiliau hyn wedi'u bodloni, a

**4.9** cadarnhau ymarfer ac addasrwydd diogel ac effeithiol y myfyrwyr i'w haildderbyn i, neu i aros ar, y gofrestr.

# 5 Cymhwyster neu gredydau i'w dyfarnu a gwybodaeth am gofrestriad yr NMC

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**5.1** sicrhau mai'r credydau/dyfarniad lleiaf ar gyfer rhaglen dychwelyd i ymarfer ar gyfer nyrsys a bydwragedd yw lefel gradd baglor a lefel meistr ôl-radd ar gyfer rhaglenni Nyrsys Iechyd y Cyhoedd a Chymunedol Arbenigol

**5.2** sicrhau mai'r credydau/dyfarniad lleiaf ar gyfer rhaglen dychwelyd i ymarfer ar gyfer cymdeithion nyrsio yw lefel gradd sylfaen

**5.3** hysbysu myfyrwyr yn ystod a chyn cwblhau'r rhaglen sut gallant ymgeisio i ailymuno â chofrestr yr NMC, a

**5.4** hysbysu myfyrwyr yn ystod a chyn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus fod ganddynt bum mlynedd[4] i adfer eu cofrestriad â'r NMC. Os bydd myfyriwr yn methu â chofrestru ei gymhwyster o fewn pum mlynedd, bydd rhaid iddynt ddilyn addysg a hyfforddiant ychwanegol neu ennill y cyfryw brofiad ag a nodir yn ein safonau.

4 www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/registration/registering-more-than-five-years-after-qualifying. pdf

# Geirfa

**Sefydliadau addysg cymeradwy (SACau):** y statws a ddyfarnir gan yr NMC i a sefydliad, neu ran o sefydliad, neu gyfuniad o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â lleoli ymarfer a darparwyr dysgu'r gweithle. Bydd SACau wedi darparu sicrwydd i ni eu bod yn atebol a'u bod yn gallu cyflwyno rhaglenni addysg wedi'u cymeradwyo gan yr NMC.

**Addysgwyr:** yng nghyd-destun safonau'r NMC ar gyfer addysg a hyfforddiant , addysgwyr yw'r rhai sy'n cyflenwi, cefnogi, goruchwylio ac yn asesu theori, ymarfer a/neu ddysgu wedi'i leoli yn y gwaith.

**Gofynion iechyd a chymeriad:** fel y nodir yn neddfwriaeth yr NMC (Erthyglau 9(2)(b) a 5(2)(b) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001) ystyr 'iechyd da' yw bod yr ymgeisydd yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol un ai gyda neu heb addasiadau rhesymol.

Nid yw'n golygu absenoldeb cyflwr iechyd neu anabledd. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sy'n ceisio cael eu derbyn i'r gofrestr neu adnewyddu eu cofrestriad, p'run ai a ydynt wedi bod yn gofrestredig o'r blaen neu beidio, ddatgan unrhyw gyhuddiadau yn yr arfaeth, collfarnau, rhybuddion gan yr heddlu a phenderfyniadau a wnaethpwyd gan gyrff rheoliadol eraill.

**Partneriaid dysgu ymarfer:** sefydliadau sy'n darparu dysgu ymarfer sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi myfyrwyr cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru wrth iddynt fodloni hyfedreddau a chanlyniadau rhaglenni.

**Sicrwydd ansawdd:** Prosesau'r NMC ar gyfer gwneud yn siŵr pob SAC a'u rhaglenni addysg cymeradwy yn cydymffurfio â'n safonau.

**Addasiadau rhesymol:** lle mae myfyriwr angen addasiad rhesymol sy'n gysylltiedig ag anabledd. Rydym hefyd yn ei ddefnyddio i olygu addasiad sy'n gysylltiedig ag unrhyw nodweddion gwarchodedig fel y'i cyflwynir yn neddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

**Efelychu:** dull addysgiadol sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi myfyrwyr wrth ddatblygu eu gwybodaeth, ymddygiadau a sgiliau, gyda chyfle i ailadrodd, rhoi adborth, gwerthuso a myfyrio i gyflawni eu canlyniadau rhaglen a chael eu cadarnhau fel pobl sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Myfyriwr:** unrhyw unigolyn sy'n cofrestru ar gyfer un o raglenni cymeradwy'r NMC ar lefel cyn cofrestru neu ôl-gofrestru, p'un a yw hynny'n llawn amser neu'n llai na llawn amser.

**Statws ychwanegol:** rhaid i fyfyrwyr sy'n ymarfer neu'n dysgu yn y gweithle gael eu cefnogi i ddysgu heb gael eu cyfrif fel rhan o'r staff sydd ei angen i roi gofal effeithiol ac effeithiol yn y lleoliad hwnnw.

Dylai lleoliadau alluogi myfyrwyr i ddysgu darparu gofal diogel ac effeithiol, nid dim ond i arsylwi; gall a dylai myfyrwyr ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r gofal. Bydd y cyfraniad gan y myfyrwyr yn cynyddu dros amser wrth iddynt ennill hyfedredd a byddant yn parhau i elwa o gymorth ac adborth parhaus.

Unwaith mae myfyriwr wedi arddangos ei fod yn hyfedr, dylai allu cyflawni tasgau heb oruchwyliaeth uniongyrchol. Mae'r lefel o oruchwyliaeth mae ar fyfyriwr ei hangen yn seiliedig ar farn broffesiynol ei oruchwylwyr, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw risgiau cysylltiedig â hyfedredd a hyder y myfyriwr.

# Yr hyn a wnawn

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 771,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)